# JONES, JOHN (1807 - 1875), argraffydd

**Enw:** John Jones
**Dyddiad geni:** 1807
**Dyddiad marw:** 1875
**Rhiant:** Catherine Jones
**Rhiant:** Ellis Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** argraffydd
**Maes gweithgaredd:** Argraffu a Chyhoeddi
**Awdur:** Griffith Milwyn Griffiths

Ganwyd 13 Awst 1807, yn Nhyddyn Siôn, Abererch, Sir Gaernarfon, yn fab i Ellis a Catherine Jones. Bu am beth amser yn argraffu yn Llundain, ac o'i swyddfa ef yr ymddangosodd y misolyn Cymraeg, *Y Cymro*, 1830-1. Dychwelodd i Gymru ac ymunodd â staff y *Carnarvon Herald* yng Nghaernarfon. Yno y bu am y rhan fwyaf o'i oes. Bu farw 20 Rhagfyr 1875.

## Awdur

**Griffith Milwyn Griffiths**

## Ffynonellau


T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

*Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties*, 1902, 381

*Baner ac Amserau Cymru*, 29 Rhagfyr 1875

H. Blackwell, NLW MSS 9262A: A Dictionary of Welsh Biography

*Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 17 Hydref 1969


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733506

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu